

**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**  
**7:30YH 30<sup>AIN</sup> MEDI 2020**  
**(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Ann Vaughan (AV), Eimir Williams (EW), Mark Davies (MD), Garffild Ll Lewis (GLL), Diane Roberts (DR), Gwynfor Davies (GD) a Gwydion Jones (GJ)

**1.3** Ymddiheuriadau: Elen H Edwards (EHE) a R. Emlyn Williams (REW). (REW oherwydd problem cysylltu.)

**1.4** Absennol: Gwyn Williams (GW)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

Dim datganiad.

**3 COFNODION I'W GWIRO 22<sup>AIN</sup> GORFFENNAF 2020**

Cynnigwyd yn gywir gan EW ac eilwyd gan AV.

**4 MATERION YN CODI**

EW – (4) dim dogfen awdit llynedd ar y wefan: adroddodd nad yw wedi cael ei derbyn gan y Cyngor gan BDO. Wedi bod ar ôl BDO i'w gyrru ymlaen, mae bellach ar y wefan ers tro.

EW yn gofyn os oedd diweddariad ynglyn a'r rheolau drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. CR yn adrodd fod Enlli Vaughan wedi eu gyrru ymlaen wedi ei diweddarau a'u cyfieuthu ym mis Awst i'r Cynghorwyr i gyd. Diolchwyd i Enlli Vaughan am ei gwaith.

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1** 0/47684: AV yn adrodd nad oedd dim yn tynnu sylw. Dim sylwadau, cytuno i gymeradwyo.

**5.2** 1/LGW/3897: trafodwyd y cais i ddiddymu'r amod amaethyddol a fod y cais wedi bod gerbron ers blynnyddoedd ond fod dim wedi cael ei wneud amdano. EW yn poeni am y nifer o dai yng nghefn gwlad sydd wedi cael eu gwerthu yn ddiweddar fel tai haf pe tasai'r amod amaethyddol yn cael ei ddiddymu ond hefyd yn derbyn y pwynt os yw'r tir wedi ei werthu eisioes, nid yw bellach yn dŷ fferm. Trafodwyd gwrthod y cais ond awgrymu wrth y Cyngor Sir y buasai'n opsiwn rhoi amod 106 ar y cais fel ei fod yn gallu bod yn gartref i bobl lleol. Adroddod AV fod y perchennog wedi nodi yn y cais eu bod wedi ceisio gwerthu'r tŷ ers pum mlynedd a fod yr amod amaethyddol yn atal iddo rhag ei werthu ar y farchnad.

Penderfynwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir ar ran y Cyngor Cymued am fwy o fanylion os oes modd rhoi Cymal 106 ar y cais cyn gwneud penderfyniad.

**6 MATERION Y CYNGOR**

**6.1** Gor-yrru gan beiriannau amaethyddol: GLL wedi gyrru ebost i'r Cynghorwyr i gyd yn adrodd fod hyn yn peri gofid i'r trigolion lleol yn enwedig yn ystod y cyfnod clo diweddar wrth gerdded o gwmpas ac yn cynnig ysgrifennu at gontractwyr lleol yn gofyn iddynt yrru'n ofalus drwy'r pentref. Er fod y cyfnod prysur cynhaeaf yn dirwyn i ben, EW yn adrodd fod y contractwyr yn gyflogwyr pwysig lleol ond mae angen codi'r gor-yrru oherwydd nifer y cwynion diweddar. Angen bod yn ddiplomatic wrth drafod y mater hwn. GLL yn cynnig gofyn yn garedig i'r contractwyr atgoffa eu gyrrwyr cyn y tymor nesaf i yrru'n ystyrlon a gofalus. EW yn cynnig fod y Cyngor yn creu rhestr o'r contractwyr lleol. Cytunwyd fod llythyr yn cael ei yrru at y contractwyr lleol, ddim yn pwyntio bys atynt yn unigol ond gadael iddynt i gyd wybod fod cwynion wedi bod am or-yrru. GLL yn cynnig drafftio llythyr yn gofyn am gydweithrediad y contractwyr lleol.

- 6.2** Mainc solar: dydi Kevin Roberts heb roi pris ynglyn â'r gwaith eto ond wedi gofyn beth mae'r Cyngor am ei wneud â'r ddau floc concrit sydd o dan y fainc ar hyn o bryd. Os ydynt yn cael eu symud, bydd angen ail-darmacio. MD yn adrodd nad oes modd eu gadael lle y maent ar hyn o bryd oherwydd diogelwch. Penderfynwyd eu codi ac ail-darmacio, gadael i Kevin benderfynu os oes modd eu ail defnyddio. EW yn adrodd for Meira Woosnam wedi cysylltu i ddweud fod cwmni'r fainc yn dod i'w hasesu yfory ond nid oes digon o amser i symud y fainc cyn iddynt gyraedd.
- 6.3** Tybiau blodau: AV yn gofyn os yw'r Cyngor yn fodlon talu costau ail-blannu'r tybiau blodau ar gyfer y gwanwyn rwan, pawb yn gytun i AV drefnu.

## **7 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR**

GLL yn atgoffa pawb y bydd Conwy mewn cyfnod clo o 6yh nos yfory, 1af Hydref. Llawer o gwestiynau wedi dod iddo gan drigolion lleol, dogfen cwestiynau ac atebion wedi cael ei yrru ymlaen gan GLL i CR cyn y cyfarfod sydd yn ddefnyddiol iawn. Os oes gan unrhywun gwestiwn penodol, cysyllter yn syth a CLL. Adroddod fod ychydig o broblemau wedi bod efo trafndiaeth ysgol yn y wlad ar ddechrau'r tymor ond fod hyn bellach wedi ei ddatrys.

Gwaith dal heb ddechrau ar y Bont Faen, dyddiad dechrau ar y gwaith yn dechrau mis Tachwedd, bydd gwaith ar y seiliau, gwaith cerrig a gwaith ar wyneb y ffordd yn cael ei wneud. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei yrru i'r Cyngor yn fuan. Gwaith ail-wneud y wal wrth y fynwent hefyd yn mynd i gychwyn yn fuan.

GLL yn adrodd fod gwaith atgyweirio lleol wedi eu cwblhau yn ddiweddar.

EW yn cyfleu ei diolch hi a rhieni eraill i GLL am ymyryd ynglyn a trafndiaeth ysgol ddechrau'r tymor newydd yn sgîl Covid-19.

## **8 BILIAU**

**8.1** Bwrdd Dŵr mynwent Llangernyw (Mawrth – Medi): £15.14

**8.2** Dei Evans (torri gwair mynwentydd): £400

**8.3** Enlli Vaughan: £117.26

**8.4** AV: blodau ar gyfer y tybiau fel drafodwyd yn 6.3 uchod £34.87

Cytunwyd i dalu'r biliau uchod i gyd. EW yn codi fod gradd clercod wedi newid, i'w drafod mis nesaf.

## **9 MATERION LLEOL**

**MD** – ceir rasio mawr newydd (megis Lamborghini ayyb) wedi bod yn gyrru trwy'r pentref ar foreau Sadwrn ers tua tair wythnos gan amlaf o gyfeiriad Llanrwst. DR hefyd wedi eu gweld. GLL hefyd wedi sylwi arnynt a wedi bod yn gwneud ymchwil ond ddim wedi dod o hyd i unrhywbeth amdanynt. MD wedi gweld car yn mynd tu ôl iddynt yn ffilmio hefyd. Angen cadw golwg os yw hyn a tynnu lluniau ayyb fel tystiolaeth er mwyn cysylltu â'r heddlu os yw'n dod yn broblem yn lleol. Soniodd GJ ei fod wedi clywed fod y ceir wedi symud o ardal y Brenig i ardal Bro Cernyw.

**AV** angen glanhau gwteri ger Bethabara. GLL wedi reportio hyn wythnos diwethaf am yr ail dro, am fynd ar ôl hyn eto.

**DR** allt Tyn Pistill, mae cerbyd wedi bachu'r ochr dde tua tri chwarter ffordd wrth fynd i fyny, gofyn os oedd modd rhoi hard core yno i'w atal rhag i'r clawdd ddisgyn i'r ffordd. DR i roi hwn ar Report It, GLL am siarad efo'r Cyngor Sir ynglyn â hyn i weld beth fuasai'n gallu cael ei wneud. Hefyd yn sôn fod angen torri gwrych Ty'r Gôf o amgylch yr arwydd Give Way ar y ffordd i mewn i'r pentref. GLL am fynd ar ôl hyn efo'r Cyngor Sir.

**EW** wedi defnyddio Report It ynglyn â sawl mater yn dilyn y cyfarfod diwethaf, popeth wedi cael ei sortio bellach. Gofyn i GLL adrodd fod y trigolion yng Ngwytherin yn hapus iawn fod y gwaith i gyd wedi ei gwblhau. EW wedi archebu 29<sup>ain</sup> o Hydref i Gwytherin a 30<sup>ain</sup> i Pandy

Tudur, wedi paratoi posteri i'w rhoi yn yr hysbysfyrddau. Angen gofyn caniatad i berchennog y Lion, Gwytherin er mwyn rhoi'r sgip yno.

Cwestiynau wedi dod gan BDO ynglyn â'r awdit, EW a EHE efo cyfarfod rhithiol i drafod rhain. Diolchodd DR i EW a EHE am ddelio efo hyn.

Wedi derbyn galwad gan aelod o'r cyhoedd, ffordd Cyngor Sir yn arwain i ddwy fferm, giat a polion wedi eu gosod gan un ffermwr ond pryder gan y ffermwr arall fod yr adwy bellach yn rhu gul i loriau basio. GLL wedi siarad efo'r Cyngor Sir am hyn eisioes, maent yn edrych i mewn i'r mater.

## **10 CYFARFOD NESAF**

21<sup>ain</sup> Hydref 2020 (Cyfarfod Rhithiol ar Zoom)

Cyfarfod yn dod i ben 8:50yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan